GROUNDWORK
NORTH WALES
GOGLEDD CYMRU

Rhif elusen 1004132
Charity no 1004132



# Y LLEOLIAD YN Y PARC

# VENUE IN THE PARK

Dewiswch y **Lleoliad yn y Parc** i gynnal eich digwyddiad gan gefnogi Groundwork i gynnal ein gwaith elusennol i wella llesiant pobl, cymunedau a'r amgylchedd naturiol.

Book your event at **Venue in the Park** and support Groundwork to sustain our charitable work improving the well-being of people, communities and the natural environment.

01978 269 564 | venueinthepark@groundworknorthwales.org.uk

# DIGONEDD O LE AC AWYRGYLCH HAMDDENOL

Mae'r Lleoliad yn y Parc yng nghanol prydferthwch Parc Gwledig Dyfroedd Alun, tair milltir i'r gogledd o Wrecsam. Mae'r adeilad pwrpasol yn mwynhau golygfeydd gwych o'r parc ac mae'n cynnwys ardaloedd digwyddiadau sy'n llawn offer, ynghyd â WiFi am ddim, a lle i hyd at 75 o bobl mewn eisteddle arddull theatr.

Saif y Lleoliad yn y Parc mewn coetir 400 acer, ac mae'n fan perffaith ar gyfer cynnal diwrnodau strategaeth, cyfarfodydd bwrdd, digwyddiadau corfforaethol, hyfforddiant, meithrin tîm, rhwydweithio a digwyddiadau preifat neu er mwyn dianc o'r swyddfa a mwynhau amser i feddwl mewn amgylchedd naturiol, heb straen.

Mae drysau gwydr yn arwain o'r ardal ddigwyddiadau i ddec preifat felly gellir symud yn rhwydd o'r adeilad i'r awyr agored gan wneud y mwyaf o'r hyn sydd gan y parc ei gynnig.

Mae'r safle yn hygyrch iawn ac mae arwyddion yn eich cyfeirio yma o'r A541. Mae digon o le i barcio ar y safle hefyd*.

*Codir tâl bach am barcio.





Gellir newid gosodiad yr ystafell ddigwyddiadau fawr mewn sawl ffordd ond rydym bob amser yn hapus i weithio gyda chi i greu'r gofod sy'n fwyaf addas ar eich cyfer.

**75**
Arddull Theatr
Theatre Style

**35**
Arddull Ystafell Ddosbarth
Class Room Style

# A RELAXED AND SPACIOUS VENUE

Set in 400 acres of woodland, Venue in the Park provides a perfect setting for those looking to host strategy days, board meetings, corporate events, training, team building, networking and private events or just for those looking to get away from the office and enjoy time to think clearly in a stress free natural environment.

The event space has direct access to its own private deck through french doors so your event can move seamlessly from indoors to outdoors making the most of all the park has to offer.

The venue is easily accessible and clearly signposted from the A541 and benefits from onsite parking*.

*Minimal charges apply for parking

Located three miles north of Wrexham, Venue in the Park is set in the beautiful surroundings of Alyn Waters Country Park. The purpose-built venue benefits from beautiful views into the park from a large fully equipped event space with free wi-fi which can accommodate up to 75 people theatre style.





**60**

Arddull Cabaret
Cabaret Style

**30**

Arddull Pedol / Ystafell Fwrdd
Horseshoe / Boardroom

The large event room can be set up in a variety of styles but we are always happy to work with you to create the space that best suits your needs & numbers.

# SUT I DDOD O HYD I NI

I gyrraedd Parc Gwledig Dyfroedd Alun dilynwch ffordd yr A541 o Wrecsam i'r Wyddgrug, a chadwch lygad am yr arwyddion brown a gwyn i'r Parc Gwledig. Cod post LL11 4AG.

# HOW TO FIND US

To reach the Alyn Waters Country Park take the A541 Wrexham to Mold road and look out for the brown and white signs to the Country Park. Postcode LL11 4AG.




# EIN GWASANAETH ARLWYO

Mae ein gwasanaeth arlwyo yn cael ei ddarparu ar y safle gan Caffi Cyfle lle rydym yn creu bwydydd blasus ar gyfer eich digwyddiad gan ddefnyddio cynhwysion ffres, o ffynonellau lleol, cynaliadwy. Gallwn gynnig brecwast, bwffe poeth neu oer, a dewis eang o gacennau a theisennau cartref ar gyfer eich holl anghenion.

# OUR CATERING

Catering is provided on site through Caffi Cyfle where we create delicious dishes for your event using fresh, sustainably sourced local ingredients. We are able to provide breakfasts, hot and cold buffets and a range of homemade cakes and pastries to cater for your every need.

# CEFNOGI'R GYMUNED EHANGACH

Rheolir y Lleoliad yn y Parc a Caffi Cyfle gan Groundwork Gogledd Cymru. Ein nod yw rhoi cymorth i unigolion o bob gallu yn ein Caffi, lle rydym yn cynnal rhaglenni gwaith a gwirfoddoli mewnol. Trwy ddewis y Lleoliad yn y Parc rydych yn cefnogi amcanion elusennol a chymdeithasol y cynllun hwn a gellir cynnwys hyn yng nghyfraniad cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol eich cwmni.

Gweler y wefan am delerau ac amodau llogi

** Gellir darparu ar gyfer anghenion deietegol arbennig*

# SUPPORTING THE COMMUNITY

Venue in the Park and Caffi Cyfle are managed by Groundwork North Wales. Our aim is to support the lives of individuals with all abilities through the Café, where we run an in-house work and volunteering programme. By booking Venue in the Park you are supporting the charitable and social objectives of this scheme which can be included in your company's corporate social responsibility contribution.

See website for terms and conditions of hire

** Specific dietary requirements catered for*

Os hoffech gynnal eich digwyddiad yn y Lleoliad yn y Parc, cysylltwch â:
If you would like to hold your event at Venue in the Park, please contact:

Debbie Cleverley | 01978 269 564 | venueinthepark@groundworknorthwales.org.uk

WWW.GROUNDWORKNORTHWALES.ORG.UK